


Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Llywodraeth Cymru

# Dadansoddiad o’r Ymatebion i'r Ymgynghoriad: 'Strategaeth ddrafft ar gyfer ymgysylltu â’r cyhoedd i weithredu ar y newid yn yr hinsawdd'

Gorffennaf 2023

Adroddiad Cryno wedi’i baratoi gan Miller Research


# ADRAN 1: Cyflwyniad

## Cefndir y strategaeth

Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi'r ymatebion a gafwyd i'r ymgynghoriad o'r enw 'Strategaeth ddrafft ar gyfer ymgysylltu â'r cyhoedd i weithredu ar y newid yn yr hinsawdd'. Cynhaliwyd yr ymgynghoriad mewn ymateb i ymrwymiad yn 'Cymru Sero Net (Cyllideb Garbon 2)' (Polisi 16) i ymgynghori ar Strategaeth Ymgysylltu â'r Cyhoedd.

Mae canlyniadau'r ymgynghoriad wedi llywio'r newidiadau a'r diwygiadau a wnaed i'r strategaeth derfynol – 'Gweithredu ar Newid Hinsawdd – Strategaeth Ymgysylltu â'r Cyhoedd (2023-2026)'.

Mae'r strategaeth derfynol hefyd yn ystyried ac yn ymgorffori canfyddiadau o ymchwil arall a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru, fel 'Pontio Teg tuag at Sero Net Cymru: Galwad am Dystiolaeth' sy'n canolbwyntio ar alluogi cyfranogiad dinesig ac a gaiff ei defnyddio wrth lunio'r rhaglen waith Pontio Teg.



OGL © Hawlfraint y Goron 2023, Hawlfraint y Goron , WG47994 ISBN argraffu 978-1-83504-359-2
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg

# Rheswm dros yr ymgynghoriad

Cynhaliwyd yr ymgynghoriad am wyth wythnos a chasglwyd ymatebion rhwng **20 Hydref 2022** a **14 Rhagfyr 2022**.


Diben yr ymgynghoriad oedd casglu adborth eang ynghylch sut y dylid cynnal y rhaglen ymgysylltu â'r cyhoedd. Bydd y strategaeth yn cynnig fframwaith pwysig ac egwyddorion arweiniol a ddefnyddir gan Lywodraeth Cymru a phartneriaid cyflawni eraill i gefnogi ac ysgogi pobl a chymunedau Cymru i weithredu mewn perthynas â'r argyfyngau hinsawdd a natur.

Ochr yn ochr â'r ymgynghoriad agored, cynhaliwyd digwyddiadau ymylol yn ystod ac yn dilyn Wythnos Hinsawdd Cymru (rhwng mis Tachwedd a mis Rhagfyr 2022).


Roedd y rhain ar ffurf gweithdai a gynhaliwyd gan sefydliadau cenedlaethol a rhanbarthol gyda chysylltiadau â phlant a phobl ifanc, yn ogystal â grwpiau ymylol, gan gynnwys y rhai nad ydynt fel arfer yn cymryd rhan mewn trafodaethau ynghylch yr hinsawdd. Diben y gweithdai oedd annog trafodaethau ar newid hinsawdd ac archwilio'r strategaeth newydd, ynghyd â'r gefnogaeth sydd ei hangen gan Lywodraeth Cymru a sefydliadau eraill i helpu i oresgyn rhwystrau rhag gwneud dewisiadau gwyrdd.


Mae'r strategaeth derfynol yn nodi dull Llywodraeth Cymru ar gyfer annog pobl i wneud penderfyniadau (gan gynnwys llunio polisïau) ynghylch sut i fynd i'r afael â newid hinsawdd, ac i gymryd y camau gweithredu sydd eu hangen i fynd i'r afael â newid hinsawdd.

Comisiynwyd Miller Research gan Lywodraeth Cymru i gynnal dadansoddiad o'r ymatebion i'r ymgynghoriad ac i lunio'r adroddiad cryno hwn.



# YMGYSYLLTU â PHOBL MEWN DATRYSIADAU AR GYFER MYND I'R AFAEL â NEWID HINSAWDD




DARLUNYDD GAN: LAURA SORVALA

## Dull

Wrth lunio'r holiadur defnyddiwyd cyfuniad o gwestiynau agored a chaeedig, gan roi lle i ymatebwyr roi adborth manwl a chodi unrhyw gwestiynau neu bryderon perthnasol sy'n ymwneud â'r strategaeth. Cafwyd ymatebion i'r ymgynghoriad ar ffurf dogfennau PDF a Word a chafodd yr ymatebion eu coladu i gronfa ddata ganolog yn seiliedig ar dablau. Dadansoddwyd yr ymatebion i gwestiynau'r ymgynghoriad fesul adran er mwyn cefnogi'r broses o ailddrafftio'r strategaeth. Cynhaliwyd dadansoddiad drwy ddull thematig, gyda dadansoddwyr yn nodi themâu cyffredin a ddaeth i'r amlwg ar draws ymatebion rhanddeiliaid. Oherwydd yr amrywiaeth o ymatebion a gafwyd, ynghyd â chwmpas eang y strategaeth, cynhaliwyd asesiad ansoddol i nodi'r themâu allweddol a ddaeth i'r amlwg.


Cododd rhai themâu mewn sawl ymateb e.e. ynghylch defnydd o iaith a chyfathrebu, tra roedd themâu eraill yn codi'n llai aml mewn ymatebion e.e. ynghylch yr angen i gynyddu cyfeiriadau yn y strategaeth at yr argyfwng natur. Fodd bynnag, o ystyried bod nifer yr ymatebion i'r ymgynghoriad yn eithaf cyfyngedig, sef cyfanswm o 57, cyn belled â bod rhai pwyntiau yn gyffredin ar draws rhai o'r ymatebion, cafodd y rhain eu trin fel themâu allweddol.

## Dadansoddiad o Deimladau

Cynhaliwyd dadansoddiad o deimladau lle rhoddwyd gradd i bob ymateb ynglŷn â'r teimlad cyffredinol yn yr ymateb i'r strategaeth yn ei chyfanrwydd, yn amrywio o gadarnhaol iawn i negyddol iawn. Defnyddiwyd y dull dadansoddiad o deimladau i gynnal dadansoddiad meintiol gyda gwybodaeth am ba mor aml roedd teimladau'n codi, teimladau cyfartalog yn ôl math o sefydliad, a theimladau yn ôl ateb (mewn achosion lle roedd y cwestiynau'n addas ar gyfer dadansoddiad meintiol).

Y mathau o ymatebwyr â'r teimladau mwyaf cadarnhaol tuag at y strategaeth oedd awdurdodau lleol, grwpiau a rhwydweithiau ymylol, a sefydliadau a rhwydweithiau gwirfoddol. Y mathau o ymatebwyr a oedd yn dangos y teimladau lleiaf cadarnhaol tuag at y strategaeth oedd unigolion a grwpiau amgylcheddol (er bod y rhain naill ai'n niwtral neu'n gadarnhaol ar y cyfan). Defnyddiwyd themâu a oedd yn dod i'r amlwg a'r teimladau yn yr ymatebion i lywio'r broses o lunio'r strategaeth derfynol.

### Ffigur 1: Pa mor aml y mae y teimlad cyffredinol tuag at y strategaeth yn codi (yn seiliedig ar gyfanswm o 57 o ymatebwyr)



# Trosolwg o fathau o ymatebwyr

Er mwyn cynnal dadansoddiad meintiol, cafodd ymatebion eu grwpio yn ôl gwahanol fathau o sefydliadau. Roedd y rhain yn cynnwys:


- **Ymarferwyr academaidd ac ymddygiadol** – h.y. ymatebwyr o sefydliadau academaidd neu ymarferwyr gwyddor ymddygiad.
- **Grwpiau amgylcheddol** – h.y. sefydliadau sy'n canolbwyntio ar gadwraeth neu ymgyrchu amgylcheddol.
- **Unigolion**.
- **Rhanddeiliaid byd diwydiant a busnes** – h.y. busnesau neu gyrff sy'n cynrychioli buddiannau busnesau.
- **Awdurdodau lleol**.
- **Cyrff a rhwydweithiau eraill yn y sector cyhoeddus** – h.y. sefydliadau sector cyhoeddus ar wahân i Lywodraeth Cymru ac Awdurdodau Lleol.
- **Grwpiau a rhwydweithiau ymylo** – ih.y. unigolion neu sefydliadau sy'n cynrychioli buddiannau grwpiau ymylol (sef pobl sydd wedi'u hallgáu o’r gymdeithas, oherwydd hil, rhyw, hunaniaeth, cyfeiriadedd rhywiol, oedran, anabledd, iaith a/neu statws mewnfudo er enghraifft).
- **Sefydliadau a rhwydweithiau gwirfoddol** – h.y. grwpiau neu sefydliadau nid-er-elw sy'n gweithio er budd y cyhoedd.

Ffigur 2: Nifer yr ymatebion fesul math o ymatebydd

| Math o Ymatebwr | Nifer o ymatebion |
|---|---|
| Ymarferwyr addysgol ac ymddygiadol | 3 |
| Grwpiau amgylcheddol | 11 |
| Unigolion | 10 |
| Rhanddeiliaid diwydiant a busnes | 5 |
| Awdurdodau lleol | 3 |
| Corfforaethau a rhwydweithiau sector cyhoeddus erail | 10 |
| Grwpiau a rhwydweithiau grwpiau marginalaidd | 5 |
| Cyrff gwirfoddol a rhwydweithiau | 10 |

# YMGYSYLLTU â PHOBL MEWN DATRYSIADAU AR GYFER MYND I'R AFAEL â NEWID HINSAWDD





DARLUNYDD GAN: LAURA SORVALA

# ADRAN 2: Dadansoddiad Meintiol

## Dadansoddiad meintiol yn ôl math o ymatebydd


Fel rhan o'r dadansoddiad o’r ymgynghoriad, cynhaliwyd asesiad meintiol, gan ganolbwyntio'n benodol ar gwestiynau caeedig. Prif amcan y dadansoddiad hwn oedd penderfynu pa mor ffafriol oedd yr ymateb i bob pennod o'r strategaeth ymhlith gwahanol grwpiau o ymatebwyr. Mae'n werth nodi bod gweddill y cwestiynau yn yr ymgynghoriad yn rhai penagored ac felly yn cael eu hystyried fel rhan o'r dadansoddiad ansoddol. Mae'r adran hon yn rhoi gwybodaeth gynhwysfawr am y dadansoddiad ystadegol a wnaed ar wyth cwestiwn caeedig, wedi'i drefnu yn ôl y math o ymatebydd.

### Cwestiwn 1: A yw’r adran ragarweiniol hon yn nodi’r heriau a’r cyfleoedd a gyflwynir gan y rhaglen hon, neu a oes unrhyw bwyntiau allweddol ar goll?





Grwpiau amgylcheddol, unigolion, a rhanddeiliaid byd diwydiant a busnes oedd y grwpiau mwyaf cyffredin a oedd yn teimlo nad oedd y cyflwyniad yn bodloni eu disgwyliadau. Roedd eu prif bryderon yn ymwneud yn bennaf â'r dewis o iaith a ddefnyddir i ddangos maint a difrifoldeb newid hinsawdd. Roeddent hefyd yn pwysleisio pwysigrwydd cyfeirio'n benodol at y cysylltiad rhwng yr argyfyngau hinsawdd a natur.

## Cwestiwn 2: A ydych yn cytuno gyda’r dull a roddwyd ar waith gennym wrth ymgysylltu ac ymgynghori ynghylch y strategaeth hon?





Roedd grwpiau a oedd yn anghytuno â'r dull yn cynnwys, i raddau helaeth, unigolion, grwpiau amgylcheddol a chyrff a rhwydweithiau eraill yn y sector cyhoeddus. Mynegodd y grwpiau hyn bryderon ynghylch eglurder a dealltwriaeth o’r dull Tîm Cymru a amlinellir yn y strategaeth. At hynny, codwyd materion yn ymwneud â chysondeb yr iaith a ddefnyddir i ddisgrifio'r dulliau a ddefnyddir ar gyfer ymgynghori ac ymgysylltu drwy gydol y ddogfen.

## Cwestiwn 4: A fu'r 'Strategaeth ar dudalen' yn ddefnyddiol?





Yn gyffredinol, cafodd rhanddeiliaid o wahanol grwpiau ymateb cadarnhaol i'r 'Strategaeth ar dudalen' a gyflwynwyd yn yr adran hon. Fodd bynnag, nid oedd rhai rhanddeiliaid o fyd diwydiant a busnes, yn ogystal â nifer llai o grwpiau ac unigolion amgylcheddol, yn ei hystyried yn ddefnyddiol. Roedd eu prif bryderon yn ymwneud â'r diffyg eglurder yn y ddogfen. Gwnaethant awgrymu y dylid mabwysiadu dull mwy cryno ac effeithiol, gyda llai o esboniadau ysgrifenedig a mwy o bwyslais ar ffeithluniau neu gynrychioliadau gweledol amgen.

## Cwestiwn 7: A ydych o'r farn fod ein dull 'pedair elfen' – sef 'Gosod Esiampl, Ennyn Brwdfrydedd, Annog, Galluogi' – yn cynnig strwythur defnyddiol ar gyfer llunio ein rhaglen ymgysylltu â'r cyhoedd?





Yn gyffredinol, cafodd fframwaith y 4 E a gyflwynwyd yn yr adran hon eu croesawu gan ymatebwyr o wahanol grwpiau rhanddeiliaid. Yr unig eithriad oedd rhai unigolion a oedd â barn negyddol am y strategaeth yn gyffredinol, gan fynegi amheuon tuag at newid hinsawdd a'r mesurau polisi sy'n gysylltiedig â'r mater.

## Cwestiwn 10: Yn eich barn chi, a ydym wedi hepgor ffactorau llwyddiant hollbwysig, sef ffactorau nad ydym yn ymdrin â nhw mewn mannau eraill yn y strategaeth ddrafft hon?





Cafwyd yr ymateb negyddol amlycaf i'r cwestiwn hwn gan grwpiau Ymylol, ac yna nifer llai o grwpiau eraill. Roedd y prif resymau yn ymwneud â diffyg canlyniadau mesuradwy a meincnodau, methiant i gydnabod yr angen i hwyluso proses bontio teg, a diffyg sylw i bwysigrwydd meithrin capasiti. Roedd pryderon nodedig yn cynnwys cyfleoedd a gollwyd o ran mynd i'r afael ag agweddau ar broses bontio teg, megis ymgysylltu â chymunedau a sectorau amrywiol sydd ar y cyrion am eu bod yn cymryd rhan yn yr economi tanwyddau ffosil, amaethyddiaeth, a'r argyfwng costau byw. Soniwyd hefyd am bwysigrwydd meithrin gallu mewn meysydd fel trafnidiaeth gymunedol, cynhyrchu bwyd lleol, a busnesau cymdeithasol.

## Cwestiwn 14: A ydych o’r farn fod y cyd-destunau polisi a’r dystiolaeth a gyflwynir yn yr adran hon yn ddefnyddiol?





Yn gyffredinol, roedd ymatebwyr o wahanol grwpiau rhanddeiliaid yn teimlo bod y dystiolaeth a'r cyd-destun polisi a gyflwynwyd yn yr adran hon yn werthfawr. Yr unig eithriad oedd nifer fach o unigolion, a fynegodd farn negyddol ar y strategaeth gyfan, gan gynnwys amheuon ynghylch newid hinsawdd a'r camau polisi sy'n gysylltiedig â’r mater.

## Cwestiwn 15: A ydych yn cytuno â’n helfennau llwyddiant a’r pwysigrwydd a rydd y strategaeth hon ar wyddor ymddygiadol?





Yn gyffredinol, roedd ymatebwyr o wahanol grwpiau rhanddeiliaid yn cytuno â'r theori llwyddiant a amlinellwyd ac yn cydnabod pwysigrwydd ymgorffori gwyddor ymddygiad. Daeth y prif wrthwynebiad gan nifer fach o unigolion a fynegodd farn negyddol ar y strategaeth gyfan.

## Cwestiwn 18: Yn gyffredinol, a yw’r strategaeth ddrafft hon wedi bodloni eich disgwyliadau neu a oes gennych unrhyw awgrymiadau ar gyfer ei gwella?




Rhanddeiliaid byd diwydiant a busnes, grwpiau a rhwydweithiau ar y cyrion, a sefydliadau a rhwydweithiau gwirfoddol oedd y prif grwpiau a oedd yn teimlo nad oedd y strategaeth ddrafft yn bodloni eu disgwyliadau. Mae'n bwysig nodi bod gan y grwpiau hyn gynrychiolaeth gymharol lai. Roedd rhanddeiliaid byd diwydiant a busnes yn pryderu am y diffyg ffocws ar addysg ac uwchsgilio ar gyfer pob grŵp oedran. Pwysleisiodd mudiadau a rhwydweithiau gwirfoddol bwysigrwydd gweithredu dan arweiniad y gymuned, ac yn ceisio cydnabyddiaeth fel partneriaid annatod yn null Tîm Cymru. Roeddent hefyd yn galw am adolygu'r dull i ystyried capasiti a gallu yn hytrach na dibynnu'n llwyr ar gymhellion a chosbau.

# YMGYSYLLTU â PHOBL MEWN DATRYSIADAU AR GYFER MYND I'R AFAEL â NEWID HINSAWDD










DARLUNYDD GAN: LAURA SORVALA

# ADRAN 3: Dadansoddiad Ansoddol

## Themâu Allweddol

### Iaith a chyfathrebu

Tynnodd ymatebwyr sylw at ba mor bwysig yw hygyrchedd, gan fynegi cefnogaeth ar gyfer sawl fersiwn o'r strategaeth mewn gwahanol fformatau a gyda gwahanol ddelweddau i ennyn diddordeb grwpiau amrywiol. At hynny, cafwyd sawl sylw ar yr angen i'r strategaeth fod yn gliriach ac yn fwy cryno.

Gwnaeth un grŵp amgylcheddol gwestiynu’r iaith a ddefnyddiwyd yn y strategaeth wrth sôn am raddfa newid hinsawdd, ac roedd y grŵp o blaid rhoi cydnabyddiaeth gliriach o'r her ddigynsail. Pwysleisiodd grwpiau amgylcheddol a rhai yn y sector cyhoeddus yr angen i’r strategaeth hyrwyddo gweithredu ar frys.

### Rhwystrau rhag newid ymddygiad

Tynnodd yr ymgynghoriad sylw at amryw rwystrau rhag newid ymddygiad y mae angen eu hystyried yn y strategaeth. Rhoddwyd llawer o sylw i anghydraddoldebau, gan gynnwys fforddiadwyedd a diffyg mynediad at seilwaith. Soniwyd am amheuaeth tuag at wleidyddion a diffyg ymwybyddiaeth o wyddor newid hinsawdd fel rhwystrau ychwanegol. Nodwyd bod natur "brysur" cymdeithas, gyda phobl yn canolbwyntio ar waith ac addysg, yn ffactor sy'n rhwystro gweithredu ar yr hinsawdd. Dywedodd ymatebwyr y dylai'r strategaeth fynd i'r afael â'r rhwystrau hyn a chynnig camau gweithredu sy’n fuddiol ac y gellir eu cyrraedd, ochr yn ochr â rhai mwy heriol y byddai angen aberthu mwy i’w cyflawni.

### Mesurau polisi a seilwaith

Roedd ymatebion i'r ymgynghoriad yn pwysleisio pa mor bwysig yw cydnabod yr angen am adnoddau o ran seilwaith, sgiliau a gwasanaethau, gan ystyried hefyd y gost i unigolion o weithredu. Galwodd yr ymatebwyr am newid polisi i gefnogi a galluogi’r gwaith o gyflawni'r strategaeth, gan gynnwys deddfwriaeth newydd a gwelliannau o ran seilwaith.

### Pontio Teg

Gofynnodd y rhai a ymatebodd i’r ymgynghoriad am gydnabyddiaeth fwy eglur o'r angen am broses Bontio Teg, ac roedd rhai am gael sicrwydd y bydd buddion y broses bontio yn cael eu gwireddu yng Nghymru. Awgrymwyd bod pontio i gymdeithas carbon isel yn cynnig nifer o gyfleoedd i aelwydydd a busnesau ac i economi Cymru, ac y dylid adlewyrchu hyn yn well yng ngweledigaeth y strategaeth. Dywedodd ymatebwyr fod yn rhaid hefyd cydnabod bod angen mynd i'r afael â bwlch sylweddol o ran sgiliau gwyrdd. Argymhellodd ymatebwyr yr ymgynghoriad y dylid rhoi sylw i safbwyntiau’r rhai sy'n cael yr effaith leiaf ar newid hinsawdd ond a allai wynebu'r effaith fwyaf, ac na ddylai unrhyw gamau a gymerir effeithio'n anghymesur ar y grwpiau hyn. Tynnodd yr ymatebwyr sylw at yr angen am werthuso pellach, gan gynnwys sut y bydd y strategaeth o fudd i'r rhai y mae newid hinsawdd yn effeithio’n anghymesur arnynt. Gwnaethant hefyd alw am ragor o fanylion ynghylch ethos Pontio Teg a chyfiawnder amgylcheddol drwy sicrhau hygyrchedd ac allgymorth pellach i grwpiau ymylol.

## Cydweithio ac ymgysylltu

Mynegodd ymatebwyr eu barn bod angen gwaith ymgysylltu mwy cyfranogol yn y strategaeth a thu hwnt. Galwyd hefyd am brosesau adborth gwell ac am ailgynllunio strwythurau ymgysylltu. Argymhellwyd y dylid cydweithio â sefydliadau cymunedol presennol ac addasu prosesau democrataidd. Cafodd bwriad y strategaeth i weithio gyda phlant a grwpiau amrywiol ei groesawu, a gofynnwyd am fwy o hyn.

## Dulliau rhanbarthol a gweithredu lleol

Amlygodd yr ymgynghoriad yr angen i roi sylw i wahaniaethau cyd-destunol rhanbarthol a lleol o ran effeithiau a gofynion penodol, gan gydnabod nad yw'n addas mabwysiadu un ymagwedd gyffredinol at ffyrdd o fyw carbon isel. Gwnaed argymhelliad i ehangu'r broses ymgysylltu gyda dimensiynau rhanbarthol pellach i adlewyrchu anghenion amrywiol cymunedau a nodweddion rhanbarthol penodol. Pwysleisiodd yr ymatebion i'r ymgynghoriad hefyd bwysigrwydd defnyddio cryfderau presennol cymunedau, a galwyd ar i'r strategaeth gychwyn prosiectau ac ymgyrchoedd sy'n cefnogi gweithredu cymunedol lleol a gwaith meithrin gallu. Amlygodd yr ymatebion i'r ymgynghoriad hefyd fod rhwydweithiau lleol eisoes ar waith mewn llawer o gymunedau ac y dylai'r strategaeth fanteisio ar hyn ar gyfer dulliau rhanbarthol cydweithredol.

## Cefnogaeth ar gyfer ymyriadau ymddygiadol

Roedd y rhan fwyaf o ymatebwyr yn cefnogi ymyriadau i newid ymddygiad ond yn awyddus i gael rhagor o wybodaeth, ac roeddent o'r farn y dylai'r strategaeth symud i ffwrdd o ddibynnu ar addysg yn unig. Cafwyd ymateb cadarnhaol i'r ffaith bod cynlluniau peilot ynghylch newid ymddygiad a chynnwys rhanddeiliaid wedi'u cynnwys.

Er y cafwyd ymateb cadarnhaol, ar y cyfan, i'r defnydd o wyddor ymddygiad sy'n seiliedig ar dystiolaeth fel modd o fynd i'r afael â newid hinsawdd, roedd lleiafrif o ymatebwyr o'r farn y dylid bod yn ofalus, ac yn mynegi pryderon ynghylch ei photensial i gael ei ystyried yn ystrywgar. Tynnodd yr ymatebwyr sylw hefyd at yr angen i ystyried ffactorau allanol a allai rwystro ymyriadau newid ymddygiad, fel anghydraddoldebau a chostau byw. Pwysleisiwyd bod angen i'r strategaeth fabwysiadu dull arloesol a gwybodus o newid ymddygiad er mwyn ymgysylltu'n effeithiol â'r cyhoedd.

## Gweithredu a thryloywder gan fyd diwydiant a'r Llywodraeth

Pwysleisiodd rhanddeiliaid o fyd diwydiant yr angen i fusnesau gofleidio gweithredu ar newid hinsawdd ac ystyried yr effeithiau amgylcheddol a chymdeithasol wrth wneud hynny. Galwodd grwpiau ac unigolion amgylcheddol ar Lywodraeth Cymru i arwain drwy esiampl, a gofynnodd ymatebwyr o sawl sector am ymrwymiadau clir gan y Llywodraeth.

## Argyfwng natur

Roedd rhywfaint o'r adborth yn yr ymgynghoriad yn tynnu sylw at yr angen i gydnabod yn fwy eang y gorgyffwrdd rhwng yr argyfwng hinsawdd a'r argyfwng natur. Galwodd grwpiau amgylcheddol am ddatganiad cliriach ynghylch yr argyfwng natur ochr yn ochr â'r argyfwng hinsawdd, a phwysleisiodd corff sector cyhoeddus yr angen i alinio â'r nod 30 erbyn 30 ac argymhellion yr Archwiliad Dwfn Bioamrywiaeth.

# YMGYSYLLTU â PHOBL MEWN DATRYSIADAU AR GYFER MYND I'R AFAEL â NEWID HINSAWDD







DARLUNYDD GAN: LAURA SORVALA

# ADRAN 4: Wythnos Hinsawdd Cymru

## Adborth ansoddol o ddigwyddiadau ymylol Wythnos Hinsawdd Cymru

Cafwyd rhagor o adborth ar y strategaeth o'r digwyddiadau ymylol a gynhaliwyd yn ystod Wythnos Hinsawdd Cymru 2022, gan gynnwys argymhellion newydd ac adborth a oedd hefyd yn cyfeirio at y themâu cyffredin a gododd yn ystod yr ymgynghoriad. Mynegodd cyfranogwyr bryderon ynghylch effeithiau newidiol newid hinsawdd a phwysleisiwyd yr angen am weithredu ar frys i fynd i'r afael â’r mater cyn iddi fynd yn rhy hwyr.

Galwodd cyfranogwyr am fwy o dryloywder a chyfathrebu ynghylch y cynnydd a wnaed tuag at dargedau Sero Net, ynghyd â gwybodaeth am weithgareddau a mentrau penodol sy'n cael effaith gadarnhaol ar leihau allyriadau. At hynny, nodwyd bod angen deall polisïau ac ymrwymiadau ar lefelau cenedlaethol a lleol a'u rhoi ar waith yn effeithiol i ysgogi gweithredu ar yr hinsawdd.

Yn y digwyddiadau ymylol cafwyd galwadau hefyd am arweinyddiaeth gref a gweithredu gan lywodraeth a busnesau, er mwyn gosod esiampl i'w dilyn. Nododd y rhai a gymerodd ran y dylid, i gyd-fynd â’r strategaeth, integreiddio ystyriaethau newid hinsawdd ar draws sectorau, a hyrwyddo arferion ynni mwy gwyrdd fel buddsoddi mewn ynni adnewyddadwy a chefnogi arferion amaethyddol cynaliadwy.

Nododd y cyfranogwyr sawl rhwystr rhag gweithredu, fel fforddiadwyedd, ffactorau diwylliannol, a diffyg ymwybyddiaeth, a nodwyd bod angen mynd i'r afael â nhw er mwyn sicrhau gweithredu ar raddfa eang. Mae ymgysylltu â chymunedau, addysg ac ymgyrchoedd ymwybyddiaeth yn hanfodol i ysgogi unigolion i weithredu. Mynegwyd hefyd ei bod yn hanfodol rhoi cymhellion a chymorth, a sicrhau bod gwybodaeth yn hygyrch (yn enwedig ar gyfer grwpiau ymylol) i rymuso unigolion a chymunedau i gymryd rhan yn y frwydr yn erbyn newid hinsawdd.

Ymhlith y rhai a gymerodd ran yn y digwyddiadau ymylol, roedd cryn ddiddordeb mewn bod yn rhan o ymdrechion i weithredu ar yr hinsawdd, yn enwedig gan nad oeddent wedi'u cynnwys yn y sgyrsiau hyn o'r blaen. Awgrymodd y cyfranogwyr y dylid manteisio ar frwdfrydedd i ddatblygu pŵer cymunedol, gan greu llwyfan ar gyfer rhannu gwybodaeth a mabwysiadu amrywiaeth o wahanol safbwyntiau.